**Pwyllgor Rheoli Datblygu**
**(Archwiliad Safle)**

**12 Mai 2025**

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd Dr S Hancock, Mrs S Hoss, Mrs J James, Mr GA Jones, Dr RM Plummer, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd V Thomas a’r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn bresennol: Mrs S Morris, Ms K Attrill, Mr A Richards, Mrs C Llewellyn (Cofnodion) a Ms G Jones.

(Archwiliad Safle: 10.15am – 10.45am)

1. **Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd C George, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd B Price a’r Cynghorydd A Tinley.

2. **Pwrpas yr Ymweliad**
Croesawyd yr Aelodau i’r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe’u hatgoffodd mai pwrpas yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd yn unig i’w galluogi nhw i weld dros eu hunain safle’r cais a’r hyn oedd oddi amgylch.  Ni fyddai trafodaeth yn digwydd ac ni fyddid yn penderfynu dim nes i’r cais cynllunio gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Rheoli Datblygu. .

3. **NP/24/0638/FUL - Creu un safle teithwyr i gynnwys un garafán sefydlog, un garafán deithiol, un ystafell ddydd/ amlbwrpas, a gwelliannau ecolegol (rhannol ôl-weithredol)  - Tir yn Froghall Yard, Feidr Moreton, Saundersfoot/Llanusyllt**

Dechreuodd yr Aelodau trwy edrych ar y ffordd fynediad a’r trac heb fetel cyfagos a oedd yn heol dramwy gyhoeddus ac yn llwybr ceffylau. Nodwyd bod yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon o ran y ffordd fynediad ac wedi argymell rhoi caniatâd amodol ynghyd â chyflwyno gwybodaeth ychwanegol o ran mynediad i gerbydau brys, am fod rhan o’r ffordd lle’r oedd y mynediad i’r safle oddi fewn i barth llifogydd.

Dangosodd y swyddog wedyn gynllun o’r safle, a nododd nad oedd y garafán sefydlog ar y safle yn y lleoliad o nodwyd ar y cynllun a bod yno gaban dros dro hefyd nad oedd wedi’i gynnwys fel rhan o’r cais cynllunio. Cynghorwyd yr Aelodau bod rhybudd gorfodaeth wedi’i weini ar y safle, ond doedd hwn ddim yn cael ei weithredu nes penderfynu’r cais. Darparwyd gwybodaeth bellach ynghylch hyn yn yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor fel rhan o’r hanes cynllunio.

Sylwodd yr Aelodau bod yna ddarn bychan o goncrid a wal o flociau ar y safle. Cynghorodd y swyddog fod hwn yn ôl pob tebyg yn weddillion bwthyn. Cafodd apêl i'w ailgodi ei wrthod yn 1972 am fod y bwthyn yn wag ac wedi'i adael.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ceibio'r safle nododd y swyddog bod yna elfen o  i'w weld ond nad oedd yn ymwybodol o unrhyw geibio heblaw am sicrhau cyflenwad o drydan a dŵr i'r safle; cynghorodd yr ymgeisydd ei fod wedi clirio prysgwydd/rhedyn, ac wedi gwaredu sbwriel. Cytunodd yr asiant i gyflenwi lluniau i'r swyddogion o'r safle cyn y clirio ac y byddai'r rhain yn cael eu dangos yn y cyfarfod o'r Pwyllgor. Nododd y swyddog hefyd bod y safle wedi amgylchynu â Gorchmynion Diogel Coed (y tu hwnt i linell y ffens) ond doedd e ddim yn ymwybodol o unrhyw niwed wedi'i achosi i'r coed hyd yn hyn.

Cynghorodd y swyddog bod yna asesiad ecolegol rhagblaen wedi'i dderbyn ac y byddai yna ddiweddariad o hwn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod. Roedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i wneud o ran hiliogaethau oedd wedi'u diogelu ac y byddai hwn yn cael ei anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru; unwaith eto byddai unrhyw ymateb yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor.

Holodd yr aelodau ynghylch cysylltu gwasanaethau i'r safle. Cadarnhawyd bod trydan a dŵr eisoes wedi'u cysylltu. Cadarnhaodd y swyddog y byddai'n rhaid i'r safle fod yn atebol i SUDS a bod cysylltu i'r system garthffosiaeth wedi'i gyfyngu, fodd bynnag dywedodd yr Asiant ei fod yn credu bod yna ddatrysiad peirianyddol eisoes mewn bodolaeth ar gyfer cysylltu â'r brif bibell ddraenio.

Yn olaf nodwyd bod nifer o oleuadau solar ar y safle. Roedd yr aelodau wedi derbyn gohebiaeth yn honni bod yna olau i'w weld yn y garafán y noson flaenorol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd iddo ymweld â'r safle ond nad oedd wedi aros yno ac nad oedd neb yn byw yno ar hyn o bryd.

Caeodd y Cadeirydd yr archwiliad safle gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb.